# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (221)

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Medi 2006**
**Amser: 2.00pm**

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

..............................................

### Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf.

..............................................

**3.04pm**
**Eitem 2 - Y Datganiad Busnes**

**Cytunwyd ar y datganiad busnes.**

..............................................

**3.17pm**
**Eitem 3 - Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion**

..............................................

**4.10pm**

**Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth**

## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM3208 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol ?heol Sefydlog 24.25:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 19 Medi 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ceffylau (Safonau Sootechnegol) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

…………………………………….

## 4.11pm

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau’r GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys 2006

**NDM3209 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol ?heol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor y Cyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau'r GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys 2006 y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Cyfarwyddiadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd egwyddor y Cyfarwyddiadau.**

**NDM3210 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol ?heol Sefydlog 29.3 (ii) a (iii):

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch y gorchymyn drafft, y Cyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau'r GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 19 Medi 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y Cyfarwyddiadau i Ymddiriedolaethau'r GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys 2006 yn cael eu gwneud yn unol ?146;r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cyfarwyddiadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y Cyfarwyddiadau.**

**……………………………………**

# 4.21pm

## Eitem 6 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru

**NDM3207 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu at y bwlch cyfoeth sy'n bodoli rhwng Cymru a rhanbarthau'r DU ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod r?ollbwysig busnesau Cymru ac entrepreneuriaid Cymru o ran datblygu twf a datblygu cynaliadwy.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod bod angen archwilio busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru, a chynnal archwiliad o’r fath, er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad allu gweithredu’n gynnar i helpu i osgoi colli rhagor o swyddi a chynorthwyo cwmn? sydd ?146;r potensial i dyfu*."

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud defnydd mwy strategol o’r rownd nesaf o Gyllid Ewropeaidd i wella trafnidiaeth a seilwaith yng Nghymru, er mwyn cau’r bwlch cyfoeth*."

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn cydnabod yr angen i werthuso'r holl asedau sydd ar gael gennym, er mwyn ysgogi'r sector busnesau bach a chanolig ym mhob rhanbarth o Gymru*."

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd Gwelliant 3**

**Y cynnig, wedi'i ddiwygio**

**NDM3207 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu at y bwlch cyfoeth sy'n bodoli rhwng Cymru a rhanbarthau'r DU ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod r?ollbwysig busnesau Cymru ac entrepreneuriaid Cymru o ran datblygu twf a datblygu cynaliadwy.

Yn cydnabod yr angen i werthuso'r holl asedau sydd ar gael gennym, er mwyn ysgogi'r sector busnesau bach a chanolig ym mhob rhanbarth o Gymru.

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 28 | 54 |

**Ni dderbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

..........................................

## 5.08pm

## Eitem 7 - Dadl ar Strategaeth Blaenau'r Cymoedd

**NDM3211 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

## Cynigiwyd cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.15 i ymestyn y cyfarfod tan 6.15pm

| For | Abstain | Against | Total |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 4 | 34 |

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol.**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyhoeddi 'Syniadau Blaengar - Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020', gyda'i Gynllun Gweithredu ategol.

2. Yn ymuno ? Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithio wrth longyfarch pob sefydliad partner ar eu hymdrech i gynhyrchu'r Strategaeth.

3. Yn rhoi ei gefnogaeth lwyr i'r holl sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau newid ym mywydau'r bobl sy'n byw, gweithio a chwarae ym Mlaenau'r Cymoedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn sicrhau bod rhaid i fesurau i gynyddu ffyniant gydnabod bod y gofynion sylfaenol ar gyfer cynyddu sgiliau a chreu amgylchedd byw a gwaith atyniadol ym Mlaenau'r Cymoedd yn anghydnaws ?atblygiad diwydiannau graddfa fawr sy'n ddinistriol ac yn fudr."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 28 | 50 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn cymeradwyo'r angen i ganolbwyntio ar gynyddu ffyniant yn yr ardaloedd a bennir yn y strategaeth, ond yn cydnabod bod ardaloedd eraill ym Mlaenau'r Cymorth hefyd angen rhagor o gymorth."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw am ddyrannu adnoddau priodol ychwanegol yn dilyn cynnwys Rhondda Fawr o fewn y strategaeth yn ddiweddar."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 28 | 51 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn cydnabod pwysigrwydd gosod TGCh wrth galon y strategaeth."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn cydnabod pwysigrwydd allweddol cynnwys pobl leol a phartneriaethau lleol wrth gyflwyno'r strategaeth."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd Gwelliant 5**

**Y cynnig, wedi’i ddiwygio**

**NDM3211 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyhoeddi 'Syniadau Blaengar - Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020', gyda'i Gynllun Gweithredu ategol.

2. Yn ymuno ? Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithio wrth longyfarch pob sefydliad partner ar eu hymdrech i gynhyrchu'r Strategaeth.

3. Yn rhoi ei gefnogaeth lwyr i'r holl sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda’i gilydd i sicrhau newid ym mywydau'r bobl sy'n byw, gweithio a chwarae ym Mlaenau'r Cymoedd.

4. Yn cymeradwyo’r angen i ganolbwyntio ar gynyddu ffyniant yn yr ardaloedd a bennir yn y strategaeth, ond yn cydnabod bod ardaloedd eraill ym Mlaenau’r Cymorth hefyd angen rhagor o gymorth.

5. Yn cydnabod pwysigrwydd gosod TGCh wrth galon y strategaeth.

6. Yn cydnabod pwysigrwydd allweddol cynnwys pobl leol a phartneriaethau lleol wrth gyflwyno’r strategaeth.

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 6 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd cynnig wedi’i ddiwygio.**

## Daeth y cyfarfod i ben am 6.11pm

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 27 Medi 2006

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 26 Medi penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol ?heol Sefydlog 24.6**

**nad oes angen cyfeirio’r ddeddfwriaeth ganlynol i’w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

**- The Agricultural Holdings (Units of Production) (Wales) Order 2006**

**- The Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) (Wales) Order 2006**

**- The Community Care, Services for Carers and Children’s Services (Direct Payments) (Wales) Amendment Regulations 2006**

**- The Pollution Prevention and Control (England and Wales) (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

**- The Sea Fishing (Enforcement of Community Satellite Monitoring Measures) (Wales) Order 2006**

**- The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

**- The Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Amendment) (Wales) Regulations 2006**

**- The Fishing Boats (Satellite-Tracking Devices) (Wales) Scheme 2006**